# Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

**2013 dccc 7**

*Atodol*

## 11 Adolygu gweithrediad y Ddeddf

Rhaid i Weinidogion Cymru, dim hwyrach na'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau yn union ar ôl diwedd y cyfnod a grybwyllir yn adran 4(6)(a), gynnal adolygiad o weithrediad y Ddeddf hon, gyda'r nod penodol o asesu pa mor llwyddiannus y bu wrth sicrhau llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwella'r llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig presennol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 14(1)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 25.9.2014 gan O.S. 2014/2589, **ergl. 2**

## 12 Cyfarwyddiadau a chanllawiau

(1) Caniateir i unrhyw gyfarwyddiadau neu ganllawiau a roddir o dan y Ddeddf hon gan Weinidogion Cymru gael eu hamrywio neu eu dirymu ganddynt.

(2) Wrth roi (neu amrywio neu ddirymu) cyfarwyddiadau neu ganllawiau o dan y Ddeddf hon rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i ddymunoldeb—

(a) hyrwyddo teithiau teithio llesol, a

(b) sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a'r cyfleusterau cysylltiedig a gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol presennol a'r cyfleusterau cysylltiedig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 12 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 14(2)**

## 13 Dehongli

Yn y Ddeddf hon—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "blwyddyn ariannol" ("*financial year*") yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;

mae i "cerddwyr a beicwyr" ("*walkers and cyclists*") yr ystyr a roddir gan adran 2(3);

mae "cyfleusterau cysylltiedig" ("*related facilities*") i'w ddehongli yn unol ag adran 2(8) a (9);

mae i "dynodedig" ("*designated*") yr ystyr a roddir gan adran 2(4);

mae i "llwybr teithio llesol" ("*active travel route*") yr ystyr a roddir gan adran 2(1);

mae i "map llwybrau presennol" ("*existing routes map*") yr ystyr a roddir gan adran 3(2);

mae i "map rhwydwaith integredig" ("*integrated network map*") yr ystyr a roddir gan adran 4(2);

mae i "taith teithio llesol" ("*active travel journey*") yr ystyr a roddir gan adran 2(7).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 13 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 14(2)**

## 14 Cychwyn

(1) Daw adrannau 3 i 11 i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(2) Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym drannoeth y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 14 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 14(2)**

## 15 Enw byr

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** A. 15 mewn grym ar 5.11.2013, gweler **a. 14(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Atodol.